4 · 82

# HEN YSGOLDY PENYBANC.

(ATHROFA DR. PHILLIPS, NEUADDLWYD).

. Can Fuddugol .

. yn .

. Eisteddfod Llwyncelyn, .

. Ceredigion, .

. Gwyl Ddewi, 1909. .

Cyhoeddedig gan y Pwyllgor.

1909.

J. D. Lewis, Argraffydd, Llandyssul.

# HEN YSGOLDY PENYBANC.

CAN' mlynedd lithrodd heibio,
  Fel breuddwyd dros y fro,
A chaddug fyn orchuddio
  Hen Hanes yn y Co';
Mewn nos 'r oedd Addysg Cymru
  A'r meddwl i'r heb fwyd,
Tra'r son am Grist yn lledu,
  O bulpud Neuaddlwyd.

Ceid lluaws o gapeli
  Yn harddu llethrau'r wlad,
A dibrin y pregethu—
  Ond Addysg ddim mor rhad :
Mewn oes mor ddi-ysgolion,
  Bendithiwyd llawer llanc
O dan y Doctor tirion
  Yn Ysgol Penybanc.

"Prif Ysgol y Bryn Eithin," *
  A'i muriau oll o bridd,
A'i tho o wellt y tyddyn,
  Fu'n enwog yn ei dydd :
Os ceir yn Nghymru heno
  Gyfundrefn Addysg dlos,
Ni ddylem byth anghofio
  Gwasanaeth ser y nos.

---

* Hoff enw Kilsby ar yr hen Athrofa.

Fel tòn ar lyn yn cyrchu,
  I'r lan bellenig draw,
Mae oes yn dylanwadu
  Ar fywyd oes a ddaw ;
Ac Ymneillduaeth Cymru,
  Mewn oesau eto gwyd,
Yn uchel fyn glodfori
  Hen Ysgol Neuaddlwyd.

Heb fawr o gelfi gweddus
  I'w helpu, 'r Athraw gwych
Lafuriai'n ddi-esgeulus
  Wrth drin y pynciau sych ;
A chalon oedd wrth galon,
  A charu Dysg yn nwyd,
Gan Athraw a Dysgyblion
  Yn Ysgol Neuaddlwyd.

Cofnodydd pena'r Hanes
  Fu Kilsby, danbaid gawr,
Tystiolaeth dwymn ei fynwes
  Sy'n win i'r oes sy' nawr :
Astudio 'r natur ddynol
  Wnai Ef yn Mhen y " Bryn,"—
Ar hyd ei oes ragorol
  Pwy gaech yn ail yn hyn ?

Y Dr. Phillips lanbryd
  Yn mynydd Dewi Sant—
Hen-fynyw—dreuliai'i fywyd
  Er lles rhyw lawer cant :
Yn Neuadlwyd y codwyd
  D. Davies o Bant-teg,
Trwy 'i hirfaith daith ni enwyd
  O'i ddawn un dyn o ddeg.

Esboniwr y Prophwydi—
  John Davies o Landwr,
A Thomas Jones, Ty Ddewi,
  Amryddawn rymus wr ;

A Silvan, Eiriadurwr,
  Ai 'n fwy bob dydd hyd fedd,—
Y Doctor oedd eu noddwr
  A'i Addysg oedd eu gwledd.

A'r angel glan ei galon
  Gysylltai'r llawr â'r Nef,
Ein HEVANS, Aberaeron,
  Penbanc fu 'i goleg ef,—
Parhad o oes y Doctor
  Oedd oes yr Hybarch dad,
A'i farn yr uchaf gynghor
  Am bethau Duw 'n y wlad!

Feithrinfa'r cyfddydd cynar!
  Magwrfa gweision Duw
At bagan Madagascar
  I'w alw i ddechreu BYW;
Mae'th enw'n glodus heddyw
  Ar gyfri 'r cewri lu,
Droent allan o Hen-fynyw
  Yn nh'w'llwch Cymru Fu.

Ieuengaf fab y Doctor—
  Ei Benjamin, sy' fyw,
Yn aros awr ei wobr
  Dan gysgod aden Duw;
Efe yw'r olaf ddolen,
  Caed aros eto'n hir,
Anwylwn ben y gadwen
  O'r to arloesa'r tir.

Os nad yw 'r Hen Ysgoldy
  Yn aros megys cynt,
Os mynai'r fflam ei ysu,
  Ni thorai 'r tan ar hynt
Y son am hen ddysgyblion
  Prif Ysgol Penybanc,
Tra'n wyrdd yr hen adgofion
  El llawer oes i'w thranc.

NEUADDLWYD.

sef Mr. Isaac Evans (Granellian)
Mydroilyn.